



# Capel y Traeth ar Waith

[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

Rhif 126

Cyhoeddi

Mehfin 2022

05	Parch Pryderi Llwyd Jones	H.V.W.	Eira Eastwood
12	Gweinidog	G.V.H.	Martha Hughes
19	Gweinidog	D.R.J.	Elsbeth Gwynne
26		C.C.	Adran Saesneg

- 07 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30  
14 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30  
21 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30  
28 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30



Annwyl Bawb,

Mis Mai - y gorau o holl fisoedd y flwyddyn gen i!

Ac mi fu'n fis o brysurdeb hefyd yng Nghricieth, fel sawl lle arall.

Yng nghanol y mis yma'n flynyddol disgyn Wythnos Cymorth Cristnogol. Ac fe wnaethpwyd yn fawr o'r 'Wythnos' hon eleni gan inni fethu ers tair blynedd cynnal unrhyw weithgarwch cymdeithasol. Yn ystod yr wythnos cafwyd Te Mefus blasus iawn, codwyd bynting anferth ar y traeth i sefyll efo pobl Wcráin a chafwyd gwasanaeth bore Sul Mai 22 yng Nghapel y Traeth, a hwnnw'n un dwyieithog undebol. Llwyddwyd, do, i wneud ein rhan. A dyma'n cyfrifoldeb ni wrth gael y fraint o addoli Duw yng Nghrist, gwneud ein rhan i leihau beichiau pobl ymhob rhan o'r byd. Diolch am ymroddiad Pwyllgor Cymorth Cristnogol yma yng Nghricieth, a diolch am gydweithrediad pawb.

Digwyddiad arall gymerodd le yn y capel ddechrau'r mis oedd cyngerdd cwbl safonol efo Bryn Jones ac Ilid Anne Jones yn rhoi datganiadau organ; Gwyneth Glyn a Twm Morys yn rhoi eitemau a Dewi Jones yn cyflwyno. Diolch am bnawn cofiadwy gyda'r elw at Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023 - Pwyllgor Cricieth.

Fe'i dywedaf eto, y mae yma gynulleidfa awyddus i weithio ac awyddus i dystio. Diolch amdani.

Awn ymlaen, felly, i dystio eto - mawr ydi'n braint.

Cofion atoch,

Iwan

**Cofion** Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch fel arfer gan fawr obeithio eich bod yn weddol. Rydym yn gwybod fod rhai ohonoch wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Braf oedd gweld bod Aled Rees wedi gwella ac yn ôl yn y Capel y Suliau diwethaf yma.

**Datganiad ar yr organ** Cawsom brynhawn hyfryd Sul cyntaf ym Mai yn gwrando ar Bryn Jones ac Ildid Anne Jones y rhoi datganiadau ar yr organ ac eitemau gan Gwyneth Glyn a Twm Morys. Doedd dim diwedd ar y canmol pan ddaeth pawb am baned a chacen i'r festri ar y diwedd. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r pedwar artist am brynhawn ardderchog. Codwyd £716 tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol 2023.



**Drws Agored** Braf oedd cael cyfle i groesawu pawb yn ôl i'r festri ar fore Mawrth am baned a thost. Rydym yn falch o allu dweud fod nifer o ffrindiau newydd wedi troi i mewn hefyd. Cofiwch bod croeso mawr yn eich aros bob bore Mawrth rhwng 10 a 11 30. Dewch â ffrind efo chi, mi fyddwch yn siwr o fwynhau y baned a'r sgwrs.



**Llongyfarchiadau** i Elin Llŷr, merch Dewi ac Eleri Jones, ar ei phriodas yn ddiweddar yng Nghapel y Traeth. Dymunwn pob hapusrwydd i'r dyfodol iddi hi a'i gŵr Josh.

**Banc Bwyd** Mae'n siwr eich bod wedi clywed ar y newyddion fel mae'r nifer sydd yn gofyn am help gan y banciau bwyd wedi dyblu yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Diolch o galon i chi am eich cyfraniadau i'r bocs bwyd ar y Sul. Fel y gwyddoch rydym yn danfon y bwyd i'r ganolfan yn Eglwys Sant Pedr ym Mhwlheli naill ai ar ddydd Mawrth neu ddydd Gwener rhwng 12 a 1.30 o'r gloch. Os gallwch chi ein helpu i wneud hyn, buasem yn ddiolchgar iawn. Gadewch i mi wybod os gwelwch yn dda.

## Wythnos Cymorth Cristnogol

Rhyw boeni fu Iwan, ein Cadeirydd a gweddill pwyllgor Cymorth Cristnogol Cricieth o sylweddoli nad oedd hi'n mynd i fod yn bosibl casglu o ddrws i ddrws eleni eto . O gyrraedd diwedd yr wythnos mor, mor braf ydy' sylweddoli nad oedd angen poeni o gwbl a hynny, diolch i'ch cefnogaeth chi ac i ddyfeisgarwch aelodau'r pwyllgor.

Fe fu'n gyfnod hynod o lwyddianus a rhwng arian y Ciniawau Grawys, y Te Mefus, Cadwyn Cariad ar y prom, sialens y £5 (ac mae gennych tan Fehefin 12fed i gyflawni'r sialens honno) a llawer o roddion hael gan unigolion, mi fyddwn ni wedi llwyddo i godi mwy o arian nag a godwyd yn 2021 hyd yn oed. Diolch o galon i chi i gyd.

*Eirwen Llwyd Jones*






**Y Clwb Sul** Un dydd Sul, aethom am dro lawr i lan y môr a chael stori Samson ac yna mynd i Cadwaladers am hufen iâ. Fel y gwelwch, mi wnaethom ei fwynhau yn fawr iawn.



Stori arall a gawsom oedd stori Joseff sy'n dysgu ni beidio bod yn genfigennus. Buom yn gwneud côt amryliw Joseff allan o da das Skittles ac roedd hyn yn hwyl.



**Llongyfarchiadau** i Sŵyn ar gael ei dewis i fod yn un o'r dawnswyr yn y ddawns flodau yn Eisteddfod 2023. Da iawn ti Sŵyn.

